POLISI GWAITH CARTREF

2023 - 2024

Polisi Gwaith Cartref Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School

Yr ydych angen ystyried y Polisi fel rhan annatod o bolisi addysgeg yr Ysgol .

Mae hawliau plant yn rhan annatod o weithgareddau, gweledigaeth a gweithdrefnau'r Ysgol. Yn sicr wrth ystyried yr erthyglau, mae'r polisi yn ffocysu ar;

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn

Erthygl 6

Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 15

Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 28

Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29

Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Diffiniad:

Gwaith Cartref yw unrhyw dasg mae'r plant yn cyflawni tu allan i oriau ysgol, a osgowyd gan athrawon a rhieni, sy'n cefnogi eu haddysg yn yr ysgol. Mae tasg syml, megis gweithgaredd ffoneg, prosiect creu a gwneud (dathlu doniau), darllen stori yn gallu cael eu hystyried fel gweithgareddau gwaith cartref.

Rhesymeg dros waith cartref:

Yn Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School rydym yn credu'n gryf bod gwaith cartref yn ychwanegu at ein prosesau cyfathrebu gyda rhieni. Bydd y gwaith cartref hefyd yn cefnogi disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Rydym yn credu bod gosod gwaith cartref yn un o'r ffyrdd lle mae plentyn yn medru meithrin y sgiliau annibynnol yma. Er bod gwaith cartref yn bwysig, ni ddylid atal plant rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a mudiadau sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd llawer o blant ac yn ogystal rydym hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd o chwarae ac amser rhydd yn natblygiad plentyn.

Nodau ac Amcanion:

• I annog y disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgwyr annibynnol;

• I hyrwyddo'r bartneriaeth rhwng cartref a'r ysgol er mwyn cefnogi dysgu'r unigolyn;

• I atgyfnerthu'r addysgu yn yr ysgol ac i roi cyfleoedd i'r disgyblion i ymarfer y sgiliau a ddysgwyd yn y gwersi;

• I helpu disgyblion i ddatblygu arferion da yn y gweithle ar gyfer y dyfodol.

Cynnwys:

Gweithgareddau Ffoneg/Darllen:

Yn ein hysgol ni, bydd pwyslais mawr yn y blynyddoedd cynnar ar weithgareddau ffoneg er mwyn atgyfnerthu ac adeiladu ar sgiliau darllen y disgyblion. Bydd y gwaith ffoneg yn y Gymraeg a Saesneg yn y Ffrwd Iaith Ddeuol. Bydd cofnod darllen yn rhan o'r cyfathrebu effeithiol rhwng yr Ysgol a chartref er mwyn cadarnhau ein bod ni fel Ysgol a chi fel rhieni yn cydweithio er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn i lwyddo.

Dathlu Doniau:

Bydd prosiect pob tymor i gwblhau tua mis cyn diwedd y tymor yn seiliedig ar brosiect creu a gwneud gyda ffocws ar sgiliau rhifedd, y gallu i feddwl yn gritigol ac wrth gwrs cydweithio effeithiol rhwng y plant a rhieni/gwarchodwyr.

Bydd yr Ysgol yn dathlu'r prosiect ar ddiwedd y tymor. Bydd pob plentyn sydd yn cyflawni'r prosiect yn derbyn tystysgrif a bydd oriel yn yr Ysgol yn arddangos y gwaith pan fydd cyfle i rieni ymuno yn y dathliadau.

Blwyddyn 2 i fyny:

Wrth i niferoedd yr Ysgol datblygu, bydd y Polisi yn newid ac esblygu er mwyn cydnabod y blynyddoedd newydd ac anghenion disgyblion.

Tasgau Ychwanegol:

Er mwyn ymateb i anghenion yr unigolyn, pob hyn a hyn mi fydd eich plentyn yn derbyn tasgau ychwanegol i gadarnhau neu ddatblygu sgiliau newydd y mae'r disgybl wedi derbyn yn y dosbarth. Pwrpas y tasgau yw cefnogaeth h.y.. y gallu i gefnogi'r disgybl i ymarfer sgil yn gyson e.e.. ffurfio llythrennau, cysyniad mathemategol ayyb.

Disgwyliadau:

Rhieni –

- I gofnodi yn y llyfryn cofnod darllen
- I gefnogi prosiectau tymhorol
- I geisio mynychu diwrnodau dathlu
- I gefnogi tasgau ychwanegol
- I gysylltu gyda'r Ysgol petai ofid yn codi

Staff –

- I gadw'n gyfoes gyda'r cofnodion darllen (a fydd yn cynnwys gweithgareddau ffoneg)
- I ddathlu gwaith prosiect y disgyblion gan ffocysu ar beth mae'r disgybl wedi gwneud yn dda
- I farcio tasgau ychwanegol
- I ymateb i ofidion (mewn partneriaeth gydag aelod o Uwch Dîm yr Ysgol)

Lles:

Yn wraidd i bob dim bydd lles y disgyblion a staff. Mae Ysgol hapus yn creu naws arbennig o weithio ac yn sicr hyn yw'r nod tu ôl ein gwaith. Bydd hi'n bwysig i'r staff i ffocysu ar addysgu rhagorol sydd yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o osod tasgau priodol fel Gwaith cartref. Ni ddylai Gwaith cartref achosi straen teuluol neu achosi pryder i'r disgybl.

Llofnod Pennaeth:

Dyddiad:15.06.23

Cadeirydd:

Fersiwn:	
Adolygiad:	